

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
Nos Iau 26 Ebrill 2018

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

Ward Rachub

Y Cynghorydd Susan Davies

Y Cynghorydd Pearl Evans

Cynghorydd Sir- Paul Rowlinson.

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Linda Brown.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Godfrey Northam a Einir Williams.

Adroddwyd bod y Cyng. Neville Hughes wedi cael llawdriniaeth, da iawn ei fod yn well ac yn bresennol heno. Llongyfarchiadau i'r Cyng. Bleddyn Williams unwaith eto ar achlysur ei briodas yn ddiweddar. Adroddwyd bod mam y Cyng. Ann Williams yn wael, rydym oll yn meddwl am y teulu.

2. Datgan Diddordeb

Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Griff Morris a Neville Hughes

3. Materion Brys

Dim i'w drafod.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Cloc Gorffwysfan-Y Clerc i holi am brisiau i newid y cloc.

5.2 Caeau chwarae – yr Is-bwyllgor i edrych ar gaeau chwarae yr ardal, sef y Cyng. Godfrey Northam, Ann Williams a Walter Williams. Angen trefnu dyddiad pan fydd y tywydd fwy ffafriol. Y Cyng. Einir Williams am fod ar yr Is-bwyllgor hefyd.

5.3 Ysgol Dyffryn Ogwen-adroddwyd bod dŵr yn llifo yn ofnadwy o dir yr ysgol.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gyda'r cwynion.

5.4 Lloches bws Rhos Ogwen- ar ôl talu'r ffi i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd, adroddwyd nad oes angen caniatâd cynllunio, ond bod angen hawl i'w osod gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Y Clerc i holi unwaith eto.

5.5 Safle parcio 'campervans'–y Pwyllgor angen trafod safle arall, efallai wrth y Clwb Rygbi newydd.

6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Adroddwyd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Lun 30 Ebrill.

7. Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid

Cafodd bawb gopi o gofnodion y cyfarfod diwethaf a chopi o'r cyfrifon 2017-18. Roedd y Cyngor yn hapus i dderbyn argymhellion y Pwyllgor o sut i drin tanwariant y flwyddyn.

Penderfynwyd bydd y lwfans blynyddol ar gael i'r aelodau ar gyfer costau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen. Bydd angen i'r aelodau gysylltu gyda'r Clerc os am hawlio'r taliad.

Penderfynwyd bod angen ffurfio Is-bwyllgor i ystyried dyletswyddau Cadeirydd ac unrhyw berson arall sydd a dyletswydd penodol. Penderfynwyd hefyd nad yw'r Cyngor am gynnig y lwfans ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion.

Diolchwyd i'r Pwyllgor Cyllid am eu holl gwaith.

8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd.

9. Cyrtiau tenis Parc Meurig

Derbyniwyd cais am rodd gan y grŵp gwirfoddol sy'n atgyweirio'r cyrtiau. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gyfrannu at y costau.

10. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2018'

10.1 Llythyr gan Llyfrgelloedd Gwynedd Cyngor Gwynedd ynglŷn a prydles y llyfrgell gyda Partneriaeth Ogwen. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r bwriad o sefydlu Llyfrgell Gymunedol ar y cyd.

10.2 Llythyr gan Partneriaeth Ogwen- amcan o'r costau rhedeg y llyfrgell gymunedol.

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus gyda'r costau.

10.3 E-bost gan Rheolwr Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru Llanberis-cais cynllunio ar gyfer ail-ddatblygu 'r ganolfan. Y Cynghorwyr i ymateb fel unigolion.

10.4 E-bost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a cyfyngiad cyflymder arfaethedig 20mya (Aberacseg) a 40mya (Ffordd Coetmor) ym Methesda. Penderfynwyd bod y cyngor yn hapus i gefnogi'r cyfyngiadau.

10.5 E-bost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a cyfyngiadau parcio arfaethedig yn Rachub.

Penderfynwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad.

10.6 E-bost gan Cymdeithas yr Iaith ynglŷn a clybiau ieuentid. Y Clerc i ymateb bod y Cyngor eisoes wedi penderfynu ariannu'r clwb ym Methesda.

10.7 E-bost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a cau amryw ffyrdd yn ardal Arfon-cyfyngiadau dros dro. Nodwyd yr ohebiaeth.

10.8 Dyfynbris gan Cadarn am ail-ddrafftio cynlluniau maes parcio Gerlan. Y Cyngor yn hapus i dderbyn y pris.

11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C18/0138/13/LL

Tŷ Llyn, Braichmelyn, Bethesda

Estyniad i adeilad allanol er mwyn anecs ynghyd ag ymestyn cwrtil
Penderfyniad: Gwrthodwyd-o fewn y parth llifogydd, fyddai'n cynyddu risg i eiddo a phobl.

C18/0225/13/LL

The Cottage, Tyddyn Canol, Rachub

Estyniad ochr deulawr
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

C18/0236/13/LL

Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi

Estyniad i godi uchder y bwthyn i dŷ deulawr
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

Ceisiadau

C18/0314/13/LL

12 Henbarc, Carneddi, Bethesda

Estyniad gromen dros estyniad llawr gwaelod a newidiadau cysylltiedig
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

12. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Ebrill)	£271.50
CThEM (Ebrill)	£67.80
Londis-papurau(Mawrth)	£30.80
E Goodall-ffnestri Gorffwysfan	£14.00
Partneriaeth Ogwen-halen	£448.20
Partneriaeth Ogwen-Gwasanaeth Clercio a datblygu cymunedol	£14652.37
Un Llais Cymru-aelodaeth 2018-19	£667.00
G Northam-ad-daliad treuliau	£9.90
Scottish Power-Trydan Gorffwysfan	£95.45
Scottish Power-Trydan goleuadau Nadolig	£23.81